

DEDDF YR HEDDLU A THYSTIOLAETH

DROSEDDOL 1984

(PACE)

COD G

COD

YMARFER

DIWYGIEDIG AR GYFER HAWL STATUDOL I
ARESTIO GAN SWYDDOGION YR HEDDLU

G

Cychwyn – Trefniadau Trosiannol

Mae'r Cod hwn yn berthnasol i unrhyw arestiad gan swyddog heddlu ar ôl 00:00 ar
12 Tachwedd 2012

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymdrin â hawl statudol yr heddlu i arestio unigolyn sy'n ymwneud, neu sydd dan amheuaeth ei fod yn ymwneud, â throedd. Rhaid i'r hawl i arestio gael ei ddefnyddio yn deg, yn gyfrifol, gan ddangos parch i'r bobl dan amheuaeth o gyflawni troeddau a heb wahaniaethu yn anghyfreithlon. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i swyddogion yr heddlu wahaniaethu yn erbyn, aflonyddu neu erlid unrhyw unigolyn ar sail y 'nodweddion gwarchodedig' sef oedran, anabledd, ailasainio rhyw, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth wrth ddefnyddio eu hawlau. Pan fydd lluoedd heddlu yn cyflawni eu swyddogaethau mae ganddynt ddyletswydd hefyd i roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon a chymryd camau i feithrin cyssylltiadau da.
- 1.2 Mae arfer yr hawl i arestio yn cynrychioli ymyrraeth amlwg a sylweddol ar yr Hawl i Ryddid a Diogelwch dan Erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a nodir yn Rhan I o Atodlen 1 i Ddeddf Hawliau Dynol 1998.
- 1.3 Rhaid cael cyfiawnhad llawn dros ddefnyddio'r hawl a dylai swyddogion sy'n arfer yr hawl ystyried a ellid cyflawni'r amcanion angenrheidiol trwy ddulliau eraill, sy'n ymyrryd llai. Gall absenoldeb cyfiawnhad dros arfer yr hawl i arestio arwain at sialensiau petai'r achos yn mynd yn ei flaen i'r llys. Gall hefyd arwain at hawliadau sifil yn erbyn yr heddlu am arestio anghyfreithlon a cham-garcharu. Pan fydd yr hawl i arestio yn cael ei arfer mae'n hanfodol ei fod yn cael ei arfer mewn modd nad yw'n gwahaniaethu a modd cymesur sy'n cyd-fynd â'r Hawl i Ryddid dan Erthygl 5. Gweler *Nodyn 1B*.
- 1.4 Mae Adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (fel y'i hamnewidiwyd gan adran 110 o Ddeddf Troeddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005) yn rhoi'r hawl statudol i gwnstabl arestio heb warant am bob troedd. Os na chedwir at ddarpariaethau'r Ddeddf a'r Cod hwn, gellir bwrw amheuaeth ar yr arestiad a'r modd y cynhelir unrhyw ymchwiliad dilynol.
- 1.5 Rhaid i'r Cod Ymarfer hwn fod ar gael yn rhwydd ym mhob gorsaf heddlu er mwyn i swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu, unigolion a gedwir yn y ddalfa ac aelodau o'r cyhoedd fedru ymgynghori ag ef.
- 1.6 Nid yw'r *Nodiadau Cyfarwyddyd* yn ddarpariaethau i'r cod hwn.

2. Elfennau o Arestio dan adran 24 PACE

- 2.1 Mae angen dwy elfen i gael arestiad cyfreithlon:
Ymwneud neu amheuaeth o ymwneud neu ymgais i ymwneud â chyflawni troedd gan unigolyn;

A

Sail rhesymol ar gyfer *credu* bod angen arestio'r unigolyn.

- rhaid i'r ddwy elfen gael eu bodloni, a
- ni all fyth fod yn angenrheidiol arestio unigolyn oni bai bod sail resymol dros amau ei fod ef neu hi wedi cyflawni troedd.

- 2.2 Rhaid i'r unigolyn a arestir gael gwybod ei fod wedi ei arestio, hyd yn oed os yw'r ffaith honno yn amlwg, ac am yr amgylchiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r arestio yng nghyswllt y ddwy elfen uchod. Rhaid i swyddog y ddalfa gael gwybod am y materion hyn pan fydd yr unigolyn yn cyrraedd gorsaf yr heddlu. Gweler *paragraffau* 2.9, 3.3 a *Nodyn 3* a *Cod C paragraff* 3.4.

(a) 'Ymwneud â chyflawni trosedd'

- 2.3 Gall cwnstabl arestio heb warant yng nghyswllt unrhyw drosedd (gweler *Nodiadau 1* ac *1A*) unrhyw un:
- sydd ar fin cyflawni trosedd neu sydd yn y broses o gyflawni trosedd;
 - y mae gan y swyddog sail resymol dros amau ei fod am gyflawni trosedd neu ei fod yn cyflawni trosedd;
 - y mae gan y swyddog sail resymol dros amau ei fod yn euog o drosedd y mae ganddo ef neu hi sail resymol dros amau ei bod wedi ei chyflawni;
 - unrhyw un sy'n euog o drosedd sydd wedi ei chyflawni neu unrhyw un y mae gan y swyddog sail resymol dros amau ei fod yn euog o'r drosedd honno.
- 2.3A Rhaid cael rhyw sail resymol, wrthrychol dros yr amheuaeth, ar sail ffeithiau hysbys a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r tebygolrwydd bod y drosedd wedi cael ei chyflawni ac mai'r unigolyn sy'n agored i'w arestio a wnaeth ei chyflawni. Gweler *Nodiadau 2* a *2A*.

(b) Meini prawf angenrheidrwydd

- 2.4 Dim ond os bydd gan y cwnstabl sail resymol dros *gred*u ei bod yn angenrheidiol arestio'r unigolyn y gellir arfer yr hawl i arestio. Nodir y meini prawf statudol ar gyfer yr hyn all gyfateb i angenrheidrwydd ym mharagraff 2.9 ac mae'n parhau yn benderfyniad gweithredol yn ôl barn y cwnstabl i benderfynu:
- pa un o'r meini prawf angenrheidrwydd (os o gwbl) sy'n berthnasol i'r unigolyn; ac
 - os bydd unrhyw un o'r meini prawf yn berthnasol, a ddylid arestio, rhoi mechnaeth ar y stryd ar ôl arestio, rhoi adroddiad i gael ei wysio neu i'w gyhuddo trwy'r post, rhoi hysbysiad cosb neu i gymryd unrhyw gamau eraill sydd ar gael i'r swyddog.
- 2.5 Wrth weithredu'r meini prawf, rhaid i'r swyddog sy'n arestio fod yn fodlon bod o leiaf un o'r rhesymau sy'n cefnogi'r angen i arestio wedi ei fodloni.
- 2.6 Mae ymestyn yr hawl i arestio i bob trosedd yn rhoi'r gallu i'r cwnstabl ddefnyddio'r hawl hwnnw i ymdrin ag unrhyw sefyllfa. Ond mae gweithredu'r meini prawf angenrheidrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwnstabl archwilio a chyfiawnhau'r rheswm neu resymau pam bod angen arestio unigolyn neu (yn ôl yr achos dan sylw) ei arestio eto, am drosedd i swyddog y ddalfa benderfynu a yw am ganiatáu i'r unigolyn gael ei roi yn y ddalfa am y drosedd honno. Gweler *Nodyn 2C*
- 2.7 Mae'r meini prawf ym mharagraff 2.9 isod sy'n cael eu nodi yn adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 fel y'i hamnewidiwyd gan adran 110 o Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 yn gynhwysfawr. Ond, mae'r amgylchiadau a all fodloni'r meini prawf hyn yn parhau yn fater i benderfyniad gweithredol swyddogion unigol. Rhoddir rhai enghreifftiau i ddarlunio beth yw'r amgylchiadau hynny a beth all swyddogion ei ystyried wrth benderfynu a oes angen arestio.

2.8 Wrth ystyried yr amgylchiadau unigol, rhaid i'r cwnstabl ystyried sefyllfa'r dioddefwr, natur y drosedd, amgylchiadau'r un dan amheuaeth ac anghenion y broses ymchwilio.

2.9 Pan fydd hi'n ymarferol dweud wrth unigolyn pam bod angen ei arestio (yn ôl gofynion paragraffau 2.2, 3.3 a *Nodyn 3*), dylai'r cwnstabl amlinellu'r ffeithiau, gwybodaeth ac amgylchiadau eraill sy'n rhoi'r seiliau ar gyfer credu bod yr arestiad yn angenrheidiol ac y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf statudol yn is-baragraffau (a) i (f), yn benodol:

- (a) er mwyn gallu cael enw'r unigolyn dan sylw (mewn achos pan na fydd y cwnstabl yn gwybod, ac na all ganfod yn rhwydd, enw'r unigolyn, neu fod ganddo sail resymol dros amau ai'r enw a roddwyd gan yr unigolyn yw ei enw mewn gwirionedd):

Gall swyddog benderfynu na ellir casglu enw unigolyn yn rhwydd os bydd yn methu neu yn gwrthod ei roi pan ofynnir iddo/iddi, yn arbennig ar ôl cael rhybudd y bydd methu neu wrthod yn debygol o'i gwneud hi'n angenrheidiol i'w arestio (gweler *Nodyn 2D*). Gall seiliau dros amau enw a roddir godi os bydd yr unigolyn yn ymddangos yn gyndyn neu yn oedi pan ofynnir iddo/iddi roi enw neu gadarnhau'r enw y mae wedi ei roi.

Pan fydd dull symudol o gymryd olion bysedd ar gael ac na ellir casglu enw'r un dan amheuaeth neu pan fydd ansicrwydd, dylai'r swyddog ystyried defnyddio'r hawl dan adran 61(6A) o PACE (gweler *Cod D paragraff 4.3(e)*) i gymryd a gwirio olion bysedd unigolyn dan amheuaeth gan y gall hyn osgoi'r angen i arestio er mwyn gwneud dim mwy na chael enw.

- (b) yn yr un modd o ran cyfeiriad unigolyn:

Gall swyddog benderfynu na ellir casglu cyfeiriad unigolyn yn rhwydd os bydd yn methu neu yn gwrthod ei roi pan ofynnir iddo/iddi, yn arbennig ar ôl cael rhybudd y bydd methu neu wrthod yn debygol o'i gwneud hi'n angenrheidiol i'w arestio. Gweler *Nodyn 2D*. Gall seiliau dros amau cyfeiriad a roddir godi os bydd yr unigolyn yn ymddangos yn gyndyn neu yn oedi pan ofynnir iddo/iddi roi cyfeiriad neu yn methu rhoi manylion y gellir eu gwirio am yr ardal y mae'n honni ei fod ef/hi yn byw ynddi.

Wrth ystyried rhoi adroddiad i ystyried gwsio neu gyhuddo trwy'r post fel dewis heblaw arestio, byddai cyfeiriad yn foddhaol os bydd yr unigolyn yno am gyfnod digon hir i gyflwyno'r wŷs iddo/iddi neu atafaelu a chyhuddo; neu, y bydd rhyw unigolyn arall yn y cyfeiriad a nodwyd gan yr unigolyn yn derbyn y ddogfen ar ei ran. Wrth ystyried rhoi rhybudd o gosb, dylai'r cyfeiriad fod yn un lle bydd yr unigolyn petai camau gorfodi yn cael eu cymryd os na fydd yr unigolyn yn talu'r gosb neu ei fod yn cael ei ddyfarnu'n euog ac yn cael dirwy mewn gwrandawriad yn y llys.

- (c) i atal yr unigolyn dan sylw:

- (i) rhag gwneud niwed corfforol gwirioneddol iddo ei hun neu i unrhyw unigolyn arall;

Gall hyn fod yn berthnasol pan fydd yr un dan amheuaeth eisoes wedi defnyddio neu fygwth trais yn erbyn eraill a'i bod yn cael ei hystyried yn debygol y gall ymosod ar eraill os na fydd yn cael ei arestio. Gweler *Nodyn 2D*

(ii) dioddef niwed corfforol;

Gall hyn fod yn berthnasol pan fydd ymddygiad yr un dan amheuaeth a'i weithredoedd yn cael eu credu i fod yn rhai sydd yn procio, neu wedi procio, eraill i fod am ymosod ar yr un dan amheuaeth oni bai bod yr un dan amheuaeth yn cael ei arestio i'w ddiogelu ei hun. Gweler *Nodyn 2D*

(iii) achosi colled neu ddifrod i eiddo;

Gall hyn fod yn berthnasol pan fydd yr un dan amheuaeth yn hysbys fel troseddwr cyson gyda hanes o droseddau yn barhaus yn erbyn eiddo (dwyn a difrod troseddol) ac y credir ei bod yn debygol y gall barhau i droseddau os na chaiff ei arestio.

(iv) cyflawni trosedd yn erbyn gwedduster cyhoeddus (yn berthnasol yn unig pan na ellir disgwyl i aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud eu gweithgareddau arferol osgoi'r unigolyn dan sylw);

Gall hyn fod yn berthnasol pan fydd trosedd yn erbyn gwedduster cyhoeddus yn cael ei chyflawni mewn man lle mae gan y cyhoedd fynediad ac sy'n debygol o gael ei hailadrodd yn y lleoliad cyhoeddus hwnnw neu un arall ar amser pan fydd y cyhoedd yn debygol o ddod ar draws yr un dan amheuaeth. Gweler *Nodyn 2D*

(v) achosi rhwystr anghyfreithlon ar y briffordd;

Gall hyn fod yn berthnasol i unrhyw drosedd pan fydd ei chyflawni yn achosi rhwystr anghyfreithlon y credir y gall barhau neu gael ei ailadrodd os na fydd yr unigolyn yn cael ei arestio, yn arbennig os bydd yr unigolyn wedi cael rhybudd ei fod yn achosi rhwystr. Gweler *Nodyn 2D*

(d) i ddiogelu plentyn neu unigolyn bregus arall rhag yr unigolyn dan sylw.

Gall hyn fod yn berthnasol pan fydd iechyd (corfforol neu feddyliol) neu les plentyn neu unigolyn bregus yn debygol o ddioddef neu pan fydd mewn perygl o ddioddef, os nad yw'r unigolyn yn cael ei arestio mewn achosion pan na fydd yn ymarferol nac addas i wneud trefniadau gwahanol i atal yr un dan amheuaeth rhag cael unrhyw gyswllt niweidiol neu a all fod yn niweidiol gyda'r plentyn neu unigolyn bregus.

(e) er mwyn caniatáu ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd neu ymddygiad yr unigolyn dan sylw. Gweler *Nodyn 2E*

Gall hyn ddigwydd pan gredir ei bod yn debygol, oni bai bod yr unigolyn yn cael ei arestio ac yna naill ai ei roi yn y ddalfa yng ngorsaf yr heddlu neu gael 'mechnïaeth ar y stryd' i fynd i'r orsaf yn ddiweddarach, gweler *Nodyn 2J*, y byddai camau pellach yr ystyrid eu bod yn angenrheidiol i ymchwilio yn briodol i'w ymwneud â'r drosedd yn cael eu rhwystro, eu hoedi yn afresymol neu eu hatal mewn modd arall ac felly yn anymarferol. Mae'r enghreifftiau o gamau o'r fath yn cynnwys:

(i) *cyfweld yr un dan amheuaeth* ar achlysuron pan nad yw presenoldeb gwirfoddol yr unigolyn yn cael ei ystyried yn ddewis arall ymarferol yn hytrach nag arestio, oherwydd, er enghraifft:

- ei bod yn cael ei hystyried yn annhebygol y bydd yr unigolyn yn mynd i orsaf yr heddlu yn wirfoddol i'w gyfweld.
- y mae'n angenrheidiol cyfweld yr un dan amheuaeth am ganlyniad camau ymchwilio eraill y mae ei arestio yn angenrheidiol ar eu cyfer, gweler (ii) i (v) isod.



- y byddai arestio yn galluogi iddo gael rhybudd arbennig yn unol â pharagraffau 10.10 a 10.11 yng Nghod C pan ganfyddir bod yr un dan amheuaeth:
~â gwrthrychau cyhuddol yn ei feddiant, neu mewn man lle cafwyd hyd i wrthrychau o'r fath;
~ar leoliad y drosedd neu yn agos ato ar neu tua'r amser y cyflawnwyd y drosedd.
- bod yr unigolyn wedi gwneud datganiadau ffug a/neu gyflwyno tystiolaeth ffug;
- ei bod yn cael ei hystyried yn debygol y gall yr unigolyn:
~ddwyn neu ddinistrio tystiolaeth;
~gynllwynio neu gysylltu â'r rhai sydd dan amheuaeth gydag ef neu hi neu gydgyllwynwyr;
~godi ofn neu fygwth neu gysylltu â thystion.

Gweler *Nodiadau 2F a 2G*

- (ii) wrth ystyried arestio yng nghyswllt yr ymchwiliad i *drosedd ddiadwy* (gweler *Nodyn 6*), mae angen:
- mynd i mewn a chwilio heb warant chwilio unrhyw eiddo y mae'r unigolyn a arestiwyd yn ei feddiannu neu dan ei reolaeth neu'r fan lle'r arestiwyd yr unigolyn neu le'r oedd yn union cyn ei arestio;
 - i atal yr unigolyn a arestiwyd rhag cael cyswllt ag eraill;
 - i gadw'r unigolyn a arestiwyd am fwy na 24 awr cyn ei gyhuddo.
- (iii) wrth ystyried arestio yng nghyswllt unrhyw *drosedd gofnodadwy* a'i bod yn angenrheidiol sicrhau neu gadw tystiolaeth am y drosedd trwy gymryd olion bysedd, argraffiadau o wadnau esgidiau neu samplau oddi ar yr un dan amheuaeth i'w cymharu fel tystiolaeth neu eu cyfateb â deunydd arall yn ymwneud â'r drosedd, er enghraifft, o leoliad y drosedd. Gweler *Nodyn 2H*
- (iv) wrth ystyried arestio yng nghyswllt unrhyw drosedd a'i bod yn angenrheidiol chwilio, archwilio neu dynnu llun o'r unigolyn i gael tystiolaeth. Gweler *Nodyn 2H*
- (v) wrth ystyried arestio yng nghyswllt unrhyw drosedd y mae'r gofynion profi cyffuriau Dosbarth A statudol yng Nghod C adran 17 yn berthnasol, er mwyn medru profi pan gredir y gall camddefnyddio cyffuriau fod wedi achosi neu gyfrannu at y drosedd. Gweler *Nodyn 2I*.
- (f) er mwyn atal unrhyw erlyniad am y drosedd rhag cael ei atal gan ddiflaniad yr unigolyn dan sylw.

Gall hyn ddigwydd pan gredir:

- os na fydd yr unigolyn yn cael ei arestio ei fod yn annhebygol o fynd i'r llys os caiff ei erlyn;
- nad yw'r cyfeiriad a roddwyd yn gyfeiriad boddhaol i gyflwyno gwŷs neu gyhuddiad ysgrifenedig a chais i ymddangos yn y llys oherwydd na fydd yr unigolyn yno yn ddigon hir i'r wŷs neu'r cyhuddiad a chais gael eu cyflwyno ac na fydd unrhyw unigolyn arall yn y cyfeiriad a nodwyd yn derbyn y dogfennau ar ei ran.

3 Gwybodaeth i'w rhoi wrth Arestio

(a) Rhybuddion - pan fydd raid rhoi rhybudd

- 3.1 Mae paragraffau 10.1 a 10.2 o God C yn nodi'r gofyn i unigolyn y mae sail dros ei amau o drosedd (gweler *Nodyn 2*) gael ei rybuddio cyn cael ei holi neu ei holi ymhellach am drosedd.
- 3.2 *Ddim yn cael ei ddefnyddio.*
- 3.3 Rhaid i unigolyn sy'n cael ei arestio, neu ei arestio ymhellach, gael gwybod ar y pryd os yw'n ymarferol, neu os nad yw hynny'n wir, cyn gynted ag y bydd yn ymarferol wedyn, ei fod wedi ei arestio a'r seiliau a'r rhesymau dros yr arestio, gweler paragraffau 2.2 a *Nodyn 3*.
- 3.4 Rhaid i unigolyn sy'n cael ei arestio, neu ei arestio ymhellach, gael ei rybuddio oni bai:
- (a) nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd ei gyflwr neu ei ymddygiad ar y pryd;
 - (b) ei fod eisoes wedi ei rybuddio yn union cyn ei arestio fel ym *mharagraff 3.1*.

(b) Geiriad y rhybudd (Cymerwyd o God C adran 10)

- 3.5 Dylai'r rhybudd, y mae'n rhaid ei roi wrth arestio, gael ei roi yn y geiriau canlynol:

“You do not have to say anything. But it may harm your defence if you do not mention when questioned something which you later rely on in Court. Anything you do say may be given in evidence.”

Pan fydd yn addas defnyddio'r Gymraeg, gall cwnstabl roi'r rhybudd yn uniongyrchol yn Gymraeg gan ddefnyddio'r geiriau canlynol:

“Does dim rhaid i chi ddweud dim byd. Ond gall niweidio eich amddiffyniad os na fyddwch chi'n sôn, wrth gael eich holi, am rywbeth y byddwch chi'n dibynnu arno nes ymlaen yn y Llys. Gall unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud gael ei roi fel tystiolaeth.”

Gweler *Nodyn 4*

- 3.6 Nid yw mân amrywiadau ar eiriau unrhyw rybudd a roddir yn unol â'r Cod yn cyfateb i dorri'r Cod, ar yr amod bod ystyr y rhybudd perthnasol yn cael ei gadw. Gweler *Nodyn 5*
- 3.7 *Ddim yn cael ei ddefnyddio.*

4 Cofnodion Arestio

(a) Cyffredinol

- 4.1 Mae'n ofynnol i'r swyddog sy'n arestio gofnodi yn ei lyfr poded neu trwy ddulliau eraill a ddefnyddir ar gyfer cofnodi gwybodaeth:
- natur ac amgylchiadau'r drosedd a wnaeth arwain at yr arestio;
 - y rheswm neu'r rhesymau pam bod angen arestio;
 - rhoi'r rhybudd; ac
 - unrhyw beth a ddywedir gan yr unigolyn ar adeg yr arestio.

- 4.2 Dylid gwneud cofnod ar adeg yr arestio oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny. Os na chaiff y cofnod ei wneud ar y pryd, dylai'r cofnod gael ei gwblhau cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl hynny.
- 4.3 Wrth gyrraedd gorsaf yr heddlu neu ar ôl cael ei arestio am y tro cyntaf yng ngorsaf yr heddlu, rhaid i'r unigolyn a arestiwyd gael ei ddwyn ger bron swyddog y ddalfa cyn gynted ag sy'n ymarferol a rhaid agor cofnod y ddalfa yn unol ag adran 2 o God C. Bydd y wybodaeth a roddir gan y swyddog arestio am amgylchiadau a'r rheswm neu'r rhesymau dros arestio yn cael eu cofnodi fel rhan o gofnod y ddalfa. Fel arall, bydd copi o'r cofnod a wnaed gan y swyddog yn unol â pharagraff 4.1 uchod yn cael ei roi ynghlwm fel rhan o gofnod y ddalfa. Gweler *paragraffau* 2.2 a *Cod C paragraff* 3.4 a 10.3.
- 4.4 Bydd cofnod y ddalfa yn gweithredu fel cofnod o'r arestiad. Bydd copïau o gofnod y ddalfa yn cael eu rhoi yn unol â pharagraffau 2.4 a 2.4A o God C a mynediad i archwilio'r cofnod gwreiddiol yn unol â pharagraff 2.5 o God C.
- (b) Cyfweliadau ac arestiadau**
- 4.5 Bydd cofnodion cyfweliad, datganiadau arwyddocaol neu dawelwch yn cael eu trin yn yr un modd fel y nodir yn adrannau 10 ac 11 o God C ac yng Nghodau E ac F (recordiadau gweledol a sain o gyfweliadau).

Nodiadau Cyfarwyddyd

- 1 *Ar gyfer dibenion y Cod hwn, mae 'trosedd' yn golygu unrhyw drosedd statudol neu gyfraith gyffredin y gall unigolyn gael ei roi ger bron llys ynadon amdani neu Lys y Goron a'i gosbi os caiff ei ddyfarnu'n euog. Mae troseddau statudol yn cynnwys ymosod, treisio, difrod troseddol, dwyn, byrgeriaeth, twyll, meddu cyffuriau a reolir a throseddau dan ddeddfwriaeth traffig ffyrdd, trwyddedu diodydd, gamblo a mewnfudo ac is-ddeddfau llywodraeth leol. Mae troseddau cyfraith gyffredin yn cynnwys llofruddio, dynladdiad, cipio, cam-garcharu, gwyrdroi cwrs cyfiawnder a dianc o'r ddalfa gyfreithlon.*
- 1A *Nid yw'r cod hwn yn berthnasol i hawliau arestio a roddir i gwnstablaid dan unrhyw warant arestio, er enghraifft, warant a roddwyd dan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980, adrannau 1 neu 13, neu Ddeddf Mechnïaeth 1976, adran 7(1), neu hawliau cwnstablaid i arestio heb warant heblaw dan adran 24 o PACE am drosedd. Nid yw'r hawliau eraill yma i arestio heb warant yn dibynnu ar i'r unigolyn a arestiwyd gyflawni unrhyw drosedd benodol ac maent yn cynnwys:*
- *PACE, adran 46A, arestio unigolyn nad yw'n ateb mechnïaeth yr heddlu i fynychu gorsaf yr heddlu neu sydd dan amheuaeth o dorri unrhyw amod o'r fechnïaeth i swyddog y ddalfa benderfynu a ddylai gael ei gadw yn y ddalfa gan yr heddlu sy'n berthnasol os bydd yr unigolyn wedi cyflawni trosedd dan adran 6 o Ddeddf Mechnïaeth 1976 neu beidio (e.e. methu ildio i'r ddalfa heb achos rhesymol);*
 - *Deddf Mechnïaeth 1976, adran 7(3), arestio unigolyn ar fechnïaeth i fynd i'r llys sydd dan amheuaeth o dorri, neu y credir ei fod yn debygol o dorri, unrhyw amod o'r fechnïaeth i'w ddwyn i'r llys i'r fechnïaeth gael ei ail ystyried;*
 - *Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969, adran 32(1A) (dianc) - arestio i ddychwelyd yr unigolyn i'r man y mae'n ofynnol iddo breswyllo;*

- Deddf Mewnffudo 1971, Atodlen 2 i arestio unigolyn sy'n agored i'w archwilio i bennu ei hawl i aros yn y Deyrnas Unedig;
 - Deddf Iechyd Meddwl 1983, adran 136 i symud unigolyn sy'n dioddef anhwylder meddyliol i fan diogel i'w asesu;
 - Deddf Carchardai 1952, adran 49, arestio i ddychwelyd unigolyn sydd yn rhydd yn anghyfreithlon i'r carchar ac ati pan fyddant yn agored i'w cadw yn y ddalfa;
 - Deddf Traffig Ffyrdd 1988, adran 6D arestio gyrrwr yn dilyn canlyniad gofyn am brawf cychwynnol ar ochr y ffordd i alluogi'r gyrrwr roi sampl fel tystiolaeth;
 - Hawl dan gyfraith gyffredin i atal neu rwystro Torri'r Heddwch - ar ôl ei arestio gall unigolyn 18 oed neu hŷn gael ei ddwyn ger bron llys ynad heddwch i ddangos pam na ddylai gael ei ymrwymo i gadw'r heddwch - dim camau troseddol.
- 1B Ni ddylai pobl ifanc gael eu harestio ym man eu haddysg oni bai na ellir osgoi hyn. Pan fydd unigolyn ifanc yn cael ei arestio yn y fan y mae'n cael ei addysgu, rhaid i'r pennaeth neu ei enwebai gael gwybod hynny. (O God C Nodyn 11D)
- 2 Ni ddylai ffeithiau a gwybodaeth sy'n berthnasol i ymwneud unigolyn dan amheuaeth â throsedd gael eu cyfyngu i'r rhai sy'n dueddol o ddynodi bod yr unigolyn wedi cyflawni neu geisio cyflawni'r drosedd. Cyn penderfynu arestio, dylai cwnstabl ystyried unrhyw ffeithiau a gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys honiadau o ddiniweidrwydd a wneir gan yr unigolyn, a all chwalu'r amheuaeth.
- 2A Mae'r enghreifftiau penodol o ffeithiau a gwybodaeth a all awgrymu diniweidrwydd unigolyn ac a all dueddu i chwalu amheuaeth yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r amddiffyniad statudol a roddir gan Ddeddf Cyfraith Droseddol 1967, adran 3(1) sy'n caniatáu defnyddio grym rhesymol wrth atal trosedd neu arestio a'r gyfraith gyffredin am amddiffyn eich hun. Gall hyn fod yn berthnasol pan fydd unigolyn yn ymddangos, neu yn honni, ei fod wedi gweithredu yn rhesymol i'w amddiffyn ei hun neu eraill neu i atal ei eiddo neu eiddo eraill rhag cael ei ddwyn, ei ddinistrio neu ei ddifrodi, yn arbennig os bydd y drosedd honedig yn seiliedig ar ddefnyddio grym anghyfreithlon, e.e. ymosodiad troseddol. Wrth ymchwilio i honiadau sy'n ymwneud â grym gan staff ysgol, gall yr hawl a roddir i holl staff ysgolion dan Ddeddf Addysg ac Arolygon 2006, adran 93, i ddefnyddio grym rhesymol i atal eu disgyblion rhag cyflawni trosedd, anafu unigolion, difrodi eiddo neu beryglu cynnal trefn dda a disgyblaeth fod yn berthnasol yn yr un modd. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyhoeddi cyfarwyddyd ar y cyd i helpu'r cyhoedd i ddeall ystyr grym rhesymol a beth i'w ddisgwyl gan yr heddlu a'r CPS mewn achosion sy'n cynnwys honiadau o hunan amddiffyn. Mae cyngor ar wahân i staff ysgolion ar eu hawliau i ddefnyddio grym rhesymol ar gael gan yr Adran Addysg.
- 2B Os bydd cwnstabl sy'n ymdrin â honiad o drosedd ac yn ystyried yr angen i arestio yn troi yn ymchwilydd ar gyfer dibenion y Cod Ymarfer dan Ddeddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, dylai'r swyddog, yn unol â pharagraff 3.5 o'r Cod, "ddilyn pob ymchwil rhesymol, boed y rhain yn cyfeirio at neu oddi wrth yr un dan amheuaeth. Bydd yr hyn sy'n rhesymol ym mhob achos yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol."

2C Er mwyn i gwnstabl gael sail resymol dros gredu ei bod yn angenrheidiol arestio, nid yw'n ofynnol iddo ef neu hi fod yn fodlon nad oes dewis arall posibl heblaw arestio. Ond, mae'n golygu ym mhob achos, y dylai'r swyddog ystyried mai arestio yw'r dewis ymarferol, rhesymol a chymesur o ystyried yr holl amgylchiadau ar yr adeg pan wneir y penderfyniad. Bydd hyn yr un mor berthnasol i unigolyn sy'n nalfa'r heddlu ar ôl cael ei arestio am drosedd sydd dan amheuaeth o ymwneud â throsedd arall a'r angen i'w arestio am y drosedd ychwanegol yn cael ei ystyried.

2D Er nad oes angen rhybudd llafar yn benodol, dylai swyddogion os yw'n ymarferol, ystyried rhoi rhybudd sy'n nodi ei ymddygiad troseddol, ac yn esbonio pam, os na fydd yn stopio, y gall y canlyniadau ei gwneud hi'n angenrheidiol i'w arestio. Gall rhybudd o'r fath:

- os gwrandewir arno, osgoi'r angen i arestio, neu
- os bydd yn cael ei anwybyddu, gefnogi'r angen i arestio a hefyd helpu i brofi elfen feddyliol rhai troseddau, er enghraifft, bwriad ac ymwybyddiaeth yr unigolyn, neu helpu i wrthod amddiffyniad eu bod yn gweithredu yn rhesymol.

Dylai unigolyn sy'n cael rhybudd y gall gael ei arestio os na ellir casglu ei enw a'i gyfeiriad cywir, gael cyfle rhesymol i sefydlu ei enw a'i gyfeiriad cywir cyn penderfynu bod y naill neu'r llall neu'r ddau yn anhysbys ac na ellir eu casglu yn rhwydd neu bod sail resymol dros amau nad yr enw a'r cyfeiriad y mae wedi ei roi yw'r enw a'r cyfeiriad cywir. Dylid dweud wrth yr unigolyn pan nad yw ei enw yn hysbys ac na ellir ei gasglu yn rhwydd ac (yn ôl yr achos penodol) y seiliau ar gyfer amau'r enw a'r cyfeiriad y mae wedi eu rhoi, gan gynnwys, er enghraifft, y rheswm pam nad yw dogfen benodol y mae'r unigolyn wedi ei dangos i ddilysu ei enw a/neu ei gyfeiriad cywir, yn ddigonol.

2E Dylid ystyried ystyr "prydlon" o achos i achos gan ystyried yr holl amgylchiadau. Mae'n dynodi na ddylai cynnydd yr ymchwiliad gael ei oedi i'r graddau y byddai'n effeithio yn niweidiol ar effeithiolrwydd yr ymchwiliad. Mae gan y swyddog arestio hefyd hawl i benderfynu rhyddhau'r unigolyn a arestiwyd ar 'fechniaeth y stryd' fel dewis ar wahân i fynd â'r unigolyn yn uniongyrchol i'r orsaf heddlu. Gweler Nodyn 2J.

2F Rhaid i swyddog sy'n credu ei bod yn angenrheidiol cyfworld yr unigolyn dan amheuaeth o gyflawni'r drosedd yna ystyried a yw'r arestio yn angenrheidiol er mwyn cynnal y cyfweiliad. Nid yw'n ofynnol i'r swyddog holi'r un dan amheuaeth i bennu a fydd yn dod i'r orsaf heddlu yn wirfoddol i gael ei gyfworld ond rhaid iddo ystyried a yw presenoldeb gwirfoddol yr un dan amheuaeth yn ddewis ymarferol ar gyfer cynnal y cyfweiliad. Os yw hynny'n wir, yna ni fydd angen arestio. I'r gwrthwyneb, gall swyddog sy'n ystyried y dewis hwn ond nad yw'n fodlon ei fod yn ddewis ymarferol, fod â sail resymol dros benderfynu bod yr arestio yn angenrheidiol ar y dechrau 'ar y stryd'. Heb ystyried materion fel hyn, ni fyddai'r swyddog yn medru penderfynu bod arestio yn angenrheidiol er mwyn cyfworld.

Gall yr amgylchiadau sy'n awgrymu na fyddai angen arestio unigolyn 'ar y stryd' i'w gyfsweld fod pan fydd y swyddog:

- yn fodlon o ran pwyl yw'r un dan amheuaeth a'i gyfeiriad ac y bydd yn mynd i orsaf yr heddlu yn wirfoddol i gael ei gyfsweld, naill ai ar unwaith neu trwy drefniant ar ddyddiad ac amser yn y dyfodol; a
- nad yw'n gwybod am unrhyw amgylchiadau eraill sy'n awgrymu na fyddai presenoldeb gwirfoddol yn ddewis ymarferol. Gweler paragraff 2.9(e)(i) i (v).

Wrth wneud trefniadau ar gyfer presenoldeb gwirfoddol yr unigolyn, dylai'r swyddog ddweud wrth yr unigolyn:

- er mwyn ymchwilio yn briodol i'w ymwneud tybiedig â'r drosedd bod raid iddo gael ei gyfsweld dan rybudd yng ngorsaf yr heddlu, ond dan yr amgylchiadau na fydd angen ei arestio ar gyfer y diben hwn os bydd yn mynd i orsaf yr heddlu yn wirfoddol i gael ei gyfsweld;
- os bydd yn mynd i'r orsaf yn wirfoddol, y bydd ganddo hawl i gyngor cyfreithiol am ddim ymlaen llaw, a chael cyfreithiwr yn bresennol yn y cyfweiliad;
- y bydd dyddiad ac amser y cyfweiliad yn ystyried ei amgylchiadau ac anghenion yr ymchwiliad; ac
- os na fydd yn cytuno i fod yn bresennol yn wirfoddol ar amser sy'n bodloni anghenion yr ymchwilydd, neu ar ôl cytuno felly, yn peidio mynd i'r cyfweiliad, neu ar ôl bod yno, yn peidio aros i'r cyfweiliad gael ei gwblhau, bydd yn angenrheidiol ei arestio er mwyn iddo/iddi gael ei gyfsweld.

2G Pan fydd yr unigolyn yn mynd i'r orsaf heddlu yn wirfoddol i gael cyfweiliad trwy drefniant fel yn Nodyn 2F uchod, ni fyddai cyfiawnhad dros ei arestio cyn y cyfweiliad oni bai:

- bod gwybodaeth newydd a ddaeth i'r golwg ar ôl i'r trefniadau gael eu gwneud yn dangos o'r amser hwnnw, bod presenoldeb gwirfoddol yn peidio â bod yn ddewis ymarferol a bod arestio'r unigolyn wedi dod yn angenrheidiol; a
- nad oedd yn rhesymol o ymarferol i'r unigolyn gael ei arestio cyn iddo ddod i'r orsaf.

Os bydd unigolyn sy'n dod i'r orsaf heddlu yn wirfoddol i gael cyfweiliad yn penderfynu gadael cyn i'r cyfweiliad gael ei gwblhau, byddai gan yr heddlu ar yr adeg honno hawl i ystyried a oedd yn angenrheidiol ei arestio i gynnal y cyfweiliad. Nid yw'r posibilrwydd y bydd unigolyn yn penderfynu gadael yn ystod y cyfweiliad felly yn rheswm dilyn dros ei arestio cyn i'r cyfweiliad gyhwyn. Gweler Cod C paragraff 3.21.

2H Nid yw'r meini prawf angenrheidrwydd yn caniatáu arestio yn unig er mwyn cymryd, gwirio (chwilio ar hap) a chadw olion bysedd, samplau, patrwm esgidiau a ffotograffau pan na fydd unrhyw seiliau blaenorol dros gredu y byddai cymryd a chymharu'r olion bysedd ac ati, neu dynnu ffotograff yn rhoi tystiolaeth berthnasol o ymwneud yr unigolyn â'r drosedd dan sylw neu y byddai'n helpu i gasglu neu ddilysu pwyl yw mewn gwirionedd.

- 2I *Nid yw'r meini prawf angenrheidrwydd yn caniatáu arestio am drosedd yn unig am ei bod yn digwydd bod yn un o'r "troseddau ysgogi" profi cyffuriau statudol (gweler Cod C Nodyn 17E) pan nad oes unrhyw amheuaeth y gall camddefnyddio cyffur Dosbarth A fod wedi achosi neu gyfrannu at y drosedd.*
- 2J *Ar ôl pennu bod y meini prawf angenrheidrwydd wedi eu bodloni ac ar ôl arestio, gall y swyddog wedyn ystyried defnyddio mechnïaeth stryd ar sail cynnydd effeithiol ac effeithlon yr ymchwiliad i'r drosedd dan sylw. Mae'n rhoi hawl i'r swyddog orfodi'r unigolyn i fynd i orsaf heddlu ar ddyddiad/amser sy'n gweddu orau i anghenion cyffredinol yr ymchwiliad penodol. Nid yw ei ddefnydd yn cael ei gyfyngu at ymdrin â phroblemau gofal plant neu adael i swyddogion roi sylw i ddyletswyddau gweithredol sydd â mwy o frys ac nid yw rhoi mechnïaeth stryd yn dileu'r angen i arestio yn ôl-syllol.*
- 3 *Rhaid i unigolyn sydd wedi ei arestio gael digon o wybodaeth i'w alluogi i ddeall ei fod wedi cael ei amddifadu o'i ryddid a'r rheswm pam ei fod wedi cael ei arestio, cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl yr arestiad, e.e. pan fydd unigolyn yn cael ei arestio ar amheuaeth o gyflawni trosedd rhaid iddo gael gwybod am natur y drosedd dybiedig a phryd a ble y cyflawnwyd hi. Rhaid i'r un dan amheuaeth hefyd gael gwybod am y rheswm neu'r rhesymau pam ei bod yn cael ei hystyried yn angenrheidiol arestio. Dylid osgoi iaith amwys neu dechnegol. Wrth esbonio pam bod un neu fwy o'r meini prawf arestio yn berthnasol, nid yw'n angenrheidiol datgelu unrhyw fanylion penodol a all danseilio neu fel arall gael effaith niweidiol ar unrhyw broses ymchwiliol. Gall un enghraifft fod yn gynnal cyfweiliad ffurfiol pan all datgelu manylion o'r fath fod wedi rhoi cyfle i'r un dan amheuaeth greu esboniad diniwed neu i guddio celwyddau mewn modd arall rhag yr un sy'n cyfweld.*
- 4 *Nid oes dim yn y Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i roi rhybudd neu ailadrodd rhybudd wrth roi gwybod i unigolyn nad yw wedi ei arestio y gall gael ei erlyn am drosedd. Ond, ni all llys dynnu unrhyw awgrymiadau dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adran 34, os nad yw'r unigolyn wedi cael ei rybuddio.*
- 5 *Os yw'n ymddangos nad yw unigolyn yn deall y rhybudd, dylai'r unigolyn sy'n ei roi ei esbonio yn ei eiriau ei hun.*
- 6 *Dim ond yng nghyswllt rhai troseddau ditiadwy y mae rhai hawliau sydd ar gael o ganlyniad i arestio ar gael - er enghraifft, mynediad a chwilio adeilad, cadw heb gyhuddiad am fwy na 24 awr, dal unigolyn incommunicado a pheri oedi cyn cael cyngor cyfreithiol - ac maent yn amodol ar ofnyion penodol ar ganiatáu a nodir yn PACE a'r Cod Ymarfer perthnasol.*

TSO

Information and publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael gan:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch PO 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Cyhoeddwyd gyda chaniatâd y Swyddfa Gartref ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

© Hawlfraint y Goron 2012

Cedwir pob hawl.

Gallwch aildddefnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU; neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

ISBN 978 0 11 3413508

Argraffiad Cyntaf 2012.

10 9 8 7 6 45 4 3 2 1

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Y Llyfrfa.